

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 2il Mehefin 2021, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Jones, Mrs P. M. Jones a Miss S. L. Roberts.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MAI 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1148	HSBC	6.50	Taliadau banc 17 Mawrth – 16 Ebrill 2021
1140	Cyngor Sir Ddinbych	736.00	ACA Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington – taliad 2 o 10
1149	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffi rheoli Ebrill 2021
1150	CThEM	2,794.49	Didyniadau PAYE ar gyfer Ebrill 2021
1151	Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd)	4,294.23	Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Ebrill 2021
1152	Cyflogau staff	7,362.97	Cyflogau staff Mai 2021
1161	Cyngor Sir Ddinbych	32,037.00	Benthyciad SC2 – taliad 1 o 3 2021/22
	Cyfanswm taliadau	48,671.19	

Categori	Disgrifiad	Swm
Santander	Llogau ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod	22.81
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod	0.54
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod	0.67
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod	0.67
HSBC	Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod	0.67
	Cyfanswm incwm	25.36

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

3. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
1153	Gunsmoke Communications	Bathodynnau ar gyfer digwyddiad	49.00
1154	Powells of Prestatyn	Glanhau cadwyn y Maer	50.00
1155	Diabetes UK Cymru	Dosbarthu arian digwyddiadau elusen y Maer 19/20	1,243.49
1156	Treasure Chest	Dosbarthu arian digwyddiadau elusen y Maer 19/20	616.90
1157	Canda Copying Ltd	Rhentu a chopiau du a gwyn	288.23
1158	Canda Copying Ltd	Copiau lliw	78.67
1159	Sioned Graham Cameron	Gwasanaeth cyfieithu ar gyfer Mai 2021	154.51
1160	Morrisons	Blodau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol	60.00
1163	JDH Business Services Ltd	Archwilio mewnol 2020/21	383.04
1164	Cyngor Sir Ddinbych	Cost is-etholiad Bryn Hedydd ar 6ed Mai 2021	1,833.60
Cyfanswm			£4,757.44

Taliadau mewn Argyfwng (Talebau 1154 a 1160) – taliadau sydd angen eu gwneud cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor drwy gerdyn y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

4. AMODAU CYFEIRIO PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gael cadarnhau cylch gorchwyl pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU CYMRU 2021

Ymhellach i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu'r pwyllgor o oblygiadau'r Ddeddf uchod, a gyflwynwyd yn ddiweddar, i'r Cyngor Tref.

Adroddodd Clerc y Dref yn fyr y byddai Rhan 1 o'r Ddeddf, yn ymwneud â threfniadau pleidleisio, yn cael eu gweithredu pan fo'n briodol gan y Swyddog Etholiadau.

Byddai adroddiad pellach yn dilyn ar Ran 2, pŵer cyffredinol galluedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned, ar ôl derbyn esboniad ar sut y byddai'n cael ei weithredu.

Rhan 3 y Ddeddf, yn ymwneud â hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol a gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae cynghorau yn cynnal eu cyfarfodydd

yn y dyfodol. Yn benodol, gofyniad am hybrid o bresenoldeb rhithwir a chorfforol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ar gyfer cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd, gan lynu at holl ganllawiau Covid-19, a galluogi i aelodau'r cyngor siarad ar yr holl eitemau ar y rhaglen.

Dywedodd Clerc y Dref y byddai cyfarfodydd rhithwir yn parhau yn y dyfodol rhagweladwy, oherwydd natur nas gellir ei ragweld lefelau Covid-19 a rheolau sy'n newid.

Mewn perthynas ag aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle i siarad ar holl eitemau ar y rhaglen, cynigiodd Clerc y Dref ddau bosibilrwydd. Y cyntaf oedd caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad drwy gydol y cyfarfod wrth i'r rhaglen fynd ymlaen? Yr ail oedd cyflwyno eitem sefydlog ar bob rhaglen yn y dyfodol yn galluogi i aelodau'r cyhoedd siarad ar ddechrau cyfarfodydd ar unrhyw eitem i ddod. Wedi hynny, byddai'r cyfarfod yn parhau yn y dull traddodiadol?

Ychwanegodd Clerc y Dref y byddai gofyn i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol ar eu blaenoriaethau, gweithgareddau a llwyddiannau bob blwyddyn, ac awgrymodd bod hyn yn cael ei wneud fis Gorffennaf bob blwyddyn.

Hefyd, bod cyfarfodydd cymunedol yn cael eu cyflwyno, er bod angen arweiniad pellach cyn trafod hyn yn llawn a'i drefnu.

Rhaid i gynghorau cyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau a swyddogion ar ôl o leiaf pob etholiad arferol. Byddai hyn yn cael ei wneud ar y cyd ag etholiadau 2022.

Dywedodd Clerc y Dref, oherwydd darpariaeth wi-fi wael y siambr bresennol, roedd mynediad i'r rhyngwyd yn y broses o gael ei uwchraddio i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol o'r fan honno. Roedd ymgynghorydd TG y Cyngor Tref wedi dweud y byddai hyn yn gofyn am galedwedd newydd ac yn costio rhwng £1,000 a £1,500. Ychwanegodd y byddai'r offer newydd yn trosglwyddo i eiddo newydd y cyngor.

PENDERFYNWYD:

- *Ychwanegu eitem sefydlog i raglenni yn y dyfodol, fel bod aelodau'r cyhoedd yn cael gwneud sylwadau ar unrhyw un o'r eitemau i'w hystyried ar ddechrau pob cyfarfod. Adolygu hyn os daw ffordd well i'r golwg.*
- *Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol bob mis Gorffennaf.*
- *Clerc y Dref i gadarnhau os yw'r gair 'swyddogion' yn cyfeirio at staff y cyngor neu aelodau sy'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau ac adrodd yn ôl, a'r hyfforddiant i gynnwys darpariaeth ar gyfer mentora Aelod i Aelod.*
- *Cymeradwywyd gwariant o rhwng £1,000 a £1,500 i uwchraddio offer i alluogi mynediad da i'r rhyngwyd yn siambr y cyngor.*

6. YMGYNGHORIAD: SUSTRANS AR RAN CYNGOR SIR DDINBYCH – TEITHIO LLESOL – CERDDED A BEICIO YN EICH CYMUNED

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr uchod (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

7. AELOD GAN EITEM: E-SGWTERIAID YG NGHANOL Y DREF

Oherwydd derbyn triniaeth ddeintyddol cyn y cyfarfod, a oedd yn gwneud siarad yn anodd, roedd y Cynghorydd K. R. Jones wedi cysylltu gyda Chlerc y Dref i ofyn am gael gohirio'r eitem.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem.

8. EITEM GAN AELOD: SYLWADAU RHYWIAETHOL LLAFAR / CAMDRINIAETH TUAG AT FERCHED IFANC

Oherwydd absenoldeb y Cynghorydd yn gofyn am yr eitem, y Cynghorydd A. S. Johnson, awgrymodd Clerc y Dref bod yr eitem hon hefyd yn cael ei gohirio.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem.

9. EITEM GAN AELOD: ADLEOLI GORSAF BLEIDLEISIO PLASTIRION

Fel gydag eitem 7 uchod, gofynnodd y Cynghorydd K. R. Jones bod yr eitem yn cael ei gohirio.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem.

10. IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD: COEDEN GOFFA

Dywedodd Clerc y Dref bod Cadeirydd Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd y Cyngor Tref wedi gofyn am gael cyflwyno'r syniad o blannu coeden er cof am fywydau pobl leol a gollwyd i Covid-19 i'r pwyllgor er ystyriaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Butterfield bod y syniad wedi dod o fenter Canopi Gwyrdd y Frenhines i blannu coeden i nodi Jiwbili Platinwm Ei Mawrhydi yn 2022, gyda'r gwaith plannu yn cychwyn ym mis Hydref eleni.

Awgrymodd y Cynghorydd Butterfield y byddai'r parc ar Morley Road neu Ardd Goffa Cyril Roberts ar Vale Road yn lleoliad da os oedd yr aelodau'n cefnogi?

PENDERFYNWYD bod yr aelodau yn cefnogi plannu coeden a bod y lleoliad yn cael ei gyfeirio at Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd y cyngor i'w benderfynu.

[Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, holodd Clerc y Dref y Cynghorydd Mrs M. Walker, a oedd yn mynychu wrth yrru drwy ddyfais symudol, os oedd pobl yn y car gyda hi gan fod y cyfarfod ar fin mynd i sesiwn gaeedig. Dywedodd y Cynghorydd Walker bod yna ac felly gadawodd y cyfarfod]

11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

12. CYNGOR TREF Y RHYL – ADNEWYDDU YSWIRIANT 2021

Ymhellach i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Mai 2021, gofynnodd Clerc y Dref bod yr aelodau yn cydnabod y penderfyniad gan Isbwyllgor Asesu Risg y Cyngor Tref (copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r isbwyllgor wedi ei ddsbarthu gyda'r rhaglen) yn cymeradwyo'r newid mewn darparwr yswiriant a fyddai'n golygu arbedion i'r cyngor.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r penderfyniad.

13. CYLLID CFRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen), ac ers ysgrifennu'r adroddiad roedd wedi darganfod na allai'r Cyngor Tref wneud cais am y cyllid ei hun ond gallai gael peth dylanwad ar gais Cyngor Sir Ddinbych.

Awgrymodd Clerc y Dref bod grŵp bychan yn cael ei benodi i gyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych i drafod sut allai'r Cyngor Tref chwarae rhan yn y gwaith o lunio'r cais.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorwyr K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James ac A. J. yn cael eu penodi i gyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych.

14. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad: